**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 05-01 (min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 21 Mawrth 01 |
| **Amser** | 2.00-5.30pm |
| **Lleoliad** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. |

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

Andrew Davies Y Gweinidog dros Fusnes

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Clarke | Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, yr Adran Ddatblygu Economaidd |
| Sheila Maxwell | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Roger Bonehill | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Nick Batey | Uned Strategaeth TGCh |

**Cyfranwyr Allanol**

| | |
|---|---|
| Marc Welsh | Cyfarwyddwr Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru |
| Sylvia Davies | Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru |
| Tim Stowe | Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru |
| Morgan Parry | Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1:** Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwahodd pobl i siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Atgoffaodd yr Aelodau, os oeddent yn amau o gwbl, y dylent ddatgan buddiant.
2. Cyfeiriodd y Cadeirydd at erthygl yn 'The House Magazine' a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol (Paragraff 2.8 o'r Cofnodion). Dywedodd ei bod wedi cytuno i'w chymryd fel eitem agenda os nad oedd modd arall i'w thrafod. Yr oedd wedi derbyn cyngor ers hynny ac wedi ystyried y mater yn fanwl ac wedi dod i'r casgliad bod yr erthygl wedi'i hysgrifennu gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd gan weithredu mewn cymhwyster pleidiol gwleidyddol. Er bod y pwnc dan sylw wedi'i drafod yn y Pwyllgor, yr oedd wedi'i ystyried hefyd yn y Cyfarfod Llawn ac nid oedd yr erthygl yn sôn am y Pwyllgor Datblygu Economaidd neu unrhyw aelod penodol. Dywedodd ei bod yn cytuno nad oedd yr erthygl yn darlunio barn Plaid Cymru ar y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol fel y'i cofnodwyd yng nghofnodion y Pwyllgor. Yr oedd y Gweinidog wedi derbyn hynny ac wedi ysgrifennu at yr aelod gan ymddiheuro am unrhyw gamddealltwriaeth. Yr oedd hefyd wedi ysgrifennu at 'The House Magazine' i gywiro'r gwall.
3. Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi dod i'r casgliad nad oedd y mater hwn yn un a oedd yn ymwneud â'r Pwyllgor yn unig. Ar ben hynny, yr oedd y Gweinidog yn atebol i'r Cynulliad fel cyfangorff ac nid i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Felly os oedd unrhyw Aelod yn dal i deimlo'n ddig ynghylch y mater, y llwybr priodol fyddai ei godi fel pwynt o drefn mewn Cyfarfod Llawn neu ei godi yn y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.
4. Fodd bynnag, yng ngolwg cryfder y teimladau ar y mater, teimlai y byddai'n briodol caniatáu amser ar gyfer trafodaeth fyr os dymunai'r Aelodau.
5. Diolchodd Phil Williams i'r Gweinidog am ei lythyr a'i ymddiheuriad am gamddarlunio. Ailddatganodd nad oedd ei blaid yn gwrthod drafft y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol ond ei bod yn teimlo bod angen mwy o waith arno a barnai eu bod wedi gweithredu'n adeiladol. Derbyniodd y dylid dod â'r mater i'w derfyn yn awr.
6. Yn y drafodaeth, nodwyd nad Aelodau Plaid Cymru oedd yr unig rai a chanddynt amheuon ynghylch y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Teimlai'r Ceidwadwyr hefyd fod eu barn wedi'i chamddarlunio. Awgrymodd y Gweinidog, os oedd gan Aelodau eraill bryderon, y dylent eu codi gydag ef yn uniongyrchol. Wrth derfynu'r drafodaeth, dywedodd y Gweinidog y byddai'n sicrhau, os digwyddai ysgrifennu erthygl yn y dyfodol mewn cymhwyster gwleidyddol, y câi hynny ei nodi'n eglur yn y cyhoeddiad.

**Eitem 2:** Adroddiad y Gweinidog.

1. Wrth gyflwyno ei adroddiad cyfeiriodd y Gweinidog at ddatblygiadau a gafwyd ers ei ddosbarthu. Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu at Fusnes Cymru gan gytuno i sefydlu uned Partneriaid Cymdeithasol i wella cyfathrebu yn y ddau gyfeiriad a gweithio ar y cyd. Yr oedd yn aros am eu hymateb i'w gynigion.

2. Dywedodd fod cytundeb wedi'i roi i benodi Cyfarwyddwr Polisi a Strategaeth yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac y câi hynny ei hysbysebu'n genedlaethol o fewn y tair wythnos nesaf. Ychwanegodd fod cyfanswm o £146 miliwn wedi'i glustnodi bellach ar gyfer prosiectau Amcan 1.
3. Gan gyfeirio at y cychwyniad o glwy'r traed a'r genau, dywedodd y Gweinidog ei fod y diwrnod hwnnw wedi lansio'r Siarter i Dwristiaeth yng Nghymru, a gynigiai gyngor ynghylch y modd y gallai twristiaeth barhau yn ystod yr argyfwng heb y perygl o ledaenu'r afiechyd. Dywedodd y byddai'n rhoi datganiad llawn i'r Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol ond ei fod wedi cyfarfod â banciau, cymdeithasau adeiladu ac yswirwyr ac wedi derbyn sicrwydd ganddynt y byddent yn trin busnesau a ddioddefodd yn y cychwyniad yn gydymdeimladol. Gobeithiai y byddai hyn yn lliniaru pryderon llawer o bobl ac anogai unrhyw un a oedd yn wynebu anawsterau i gysylltu â'i fenthycwyr.
4. Dywedodd ei fod yn bwriadu lansio grant menter Haen 3 newydd i hybu entrepreneuriaeth a busnes cynhenid yng Nghymru. Yr oedd yn sefydlu grwp adolygu, ac ynddo gynrychiolwyr o'r WDA, ELWa, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a busnes, i roi gwybod am y bylchau a oedd yn bod o hyd o ran argaeledd cyllid. Dywedodd mai'r bwriad oedd darparu cymorth ar gyfer buddsoddi cychwynnol a hefyd gymorth meddal nad oedd yn gysylltiedig â chyfalaf. Byddai'n dosbarthu drafft o gylch gorchwyl y grwp.
5. Yn y drafodaeth codwyd nifer o bryderon:

- Yr oedd yr Aelodau'n bryderus ynghylch effaith gynyddol clwy'r traed a'r genau ar dwristiaeth a diwydiannau eraill yn yr ardaloedd amharedig. Yr oedd tystiolaeth bendant bod effaith hynny'n sylweddol eisoes ac os na chymerid camau'n fuan yr oedd nifer o fusnesau na fyddai'n goroesi hyd nes y deuai'r cychwyniad i ben. Awgrymwyd mai un ateb fyddai cyflwyno benthyciad di-log, meddal a fyddai ar gael ar unwaith. Yr oedd angen hefyd gael menter yn barod i farchnata Cymru cyn gynted ag yr oedd yr afiechyd wedi clirio.

- Yr oedd yr Aelodau'n bryderus y byddai swyddfeydd prisio'n ei chael yn anodd ymdopi â lefel y galw am ryddhad o'r trethi oddi wrth fusnesau yr oedd y cychwyniad o glwy'r traed

a'r genau'n amharu arnynt. Cytunodd y Gweinidog y gallai hynny fod yn broblem ond bwriadent fod yn hyblyg ynghylch amseroedd ceisiadau.

- Un o effeithiau'r cychwyniad a welwyd ar unwaith oedd tystiolaeth o ostyngiad yn nifer y gweithwyr tymhorol a gâi eu recriwtio. Dywedwyd bod tua 12,000 o'r rhain yn cael eu cyflogi fel arfer yr adeg hon o'r flwyddyn.

- Yr oedd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig i bennu pa atyniadau twristaidd a ddylai aros yn agored a pha rai a ddylai gau. Dywedodd eu bod, o'u hanfodd, wedi cytuno y dylai atyniadau fferm aros ar gau.

- Dywedodd y Gweinidog fod modd gweld y Siarter i Dwristiaeth ar wefan Bwrdd Croeso Cymru.

1. Mynegodd nifer o'r Aelodau bryder bod y Gweinidog, ynghyd â'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, yn rhoi cyfarwyddyd i'r wasg am yr argyfwng heb ddosbarthu gwybodaeth gyfochrog i Aelodau'r Cynulliad. Yr oedd hyn yn gadael Aelodau'r Cynulliad mewn sefyllfa amhosibl wrth ymdrin ag ymholiadau gan eu hetholwyr. Cytunodd y Gweinidog y byddai'n dosbarthu unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig ar y mater hwn, pan fyddent ar gael, i Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Dywedodd y dylai datganiadau i'r wasg fynd yn awtomatig at holl Aelodau'r Cynulliad. Yr oedd ei gynhadledd ddyddiol i'r wasg hefyd yn agored i'r holl Aelodau a chytunodd y Gweinidog i hysbysu Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd am amseroedd a lleoliadau'r rhain. [**Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
2. Dywedodd y Gweinidog y byddai hefyd yn trefnu i'r swyddogion gadw cofnod am y pwyntiau allweddol a ddeuai i'r golwg yn ystod y gynhadledd i'r wasg a oedd heb eu cynnwys yn y datganiadau i'r wasg ac yn anfon hynny at yr Aelodau. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
3. Wrth derfynu'r drafodaeth ar yr eitem hon, dywedodd y Gweinidog mai'r neges holl bwysig oedd bod Cymru'n agored ar gyfer busnes. Er bod angen cymryd gofal mewn rhai ardaloedd oherwydd cychwyniad clwy'r traed a'r genau, yr oedd digonedd o bethau i ymwelwyr eu gwneud ym mhob rhan o'r wlad.
4. Awgrymodd y Cadeirydd, a chytunodd yr Aelodau, y dylai'r agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf gynnwys trafodaeth am effaith clwy'r traed a'r genau ar yr economi wledig anamaethyddol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n paratoi memorandwm ar gyfer y cyfarfod. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd/y Clerc]**
5. Gwnaeth nifer o'r Aelodau sylwadau am y cynnydd 'canlyniadol' o £100 miliwn yr oedd Cymru i'w dderbyn yn y tair blynedd nesaf. Mynegodd rhai Aelodau'r farn y dylai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd bwyso dros ddyrannu rhywfaint ohono i ddatblygu economaidd, barnai eraill fod angen rhoi sylw hefyd i anghenion y

sectorau iechyd ac addysg lle'r oedd y cynnydd 'canlyniadol' wedi codi.

6. Yr oedd cydsyniad cyffredinol y dylai'r Cynulliad chwilio am adnoddau ychwanegol ar ben y rhai a ddarperir o dan fformiwla 'Barnett' er mwyn lliniaru effaith y colledion swyddi yn Corus (os na fyddai'r cwmni'n newid ei fwriad) ac effaith y cychwyniad o glwy'r traed a'r genau. Nid oedd yr Aelodau'n sicr a oeddent yn dymuno cael barn ffurfiol gan y Pwyllgor ar flaenoriaethau ar gyfer ariannu a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ymgynghori â'r Aelodau y tu allan i'r Pwyllgor ynghylch eu blaenoriaethau. **[Cam Gweithredu:Y Cadeirydd/y Clerc]**

**Eitem 3:** Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau o Gyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru a diolch iddynt am bapur rhagorol. Dywedodd fod hwnnw wedi nodi'n ddeheuig ac yn fras y materion yr oedd angen i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd eu hystyried ac ychwanegodd fod angen i'r Pwyllgor edrych ar y modd y caiff hyn ei gynnwys yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Gwahoddodd Sylvia Davies i'w chyflwyno ei hun a'i chydweithwyr.
2. Diolchodd Sylvia Davies i'r Cadeirydd am ei chroeso caredig ac i'r Pwyllgor am y cyfle i'w hannerch ar y mater hwn. Eglurodd fod Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru'n fudiad ambarél a gwmpasai 30 o fudiadau gwahanol sydd yn gweithio mewn meysydd cysylltiedig.
3. Cyflwynodd Marc Welsh a oedd newydd gymryd drosodd fel Cyfarwyddwr Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru, Morgan Parry o'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Cymru, Tim Stowe o Gronfa Bywyd Gwyllt y Byd Cymru a rhoddodd wybod i'r Aelodau ei bod hefyd wedi gweithio i Gyngor y Parciau Cenedlaethol. Gofynnodd wedyn i Morgan Parry a Tim Stowe ymhelaethu ymhellach ar y papur a oedd gerbron y Pwyllgor.
4. Nododd Morgan Parry fod y Cynulliad wedi cymryd camau bras eisoes i gydnabod pwysigrwydd datblygu cynaliadwy, a chydnabyddid hyn ledled Ewrop. Dywedodd y dylid ei weld yn fframwaith y datblygid y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol oddi mewn iddo ac y dylai unrhyw strategaeth gydnabod y gall datblygu cynaliadwy hyrwyddo datblygu economaidd. Fodd bynnag, nid oeddent yn cefnogi'r defnydd o'r ymadrodd 'datblygu cynaliadwy a chytbwys'. Yr oedd y defnydd o'r gair 'cytbwys' yn awgrymu cyfaddawd rhwng datblygu economaidd, amddiffyn amgylcheddol a chynnydd cymdeithasol.
5. Ychwanegodd y dylai rôl y WDA fod yn allweddol wrth roi datblygu cynaliadwy ar waith ac y dylai'r Cynulliad ei gyfeirio ar hyd y llwybr hwnnw. Yr oedd wedi'i hysbysu na allai'r WDA ffafrio cwmnïau a gynigiai brosiectau a oedd yn gysylltiedig â datblygu cynaliadwy ac anogodd y Cynulliad i gynnig cymorth i brosiectau o'r fath a drwy hynny roi mantais gystadleuol iddynt. Yr oedd Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru'n rhagweld y deuai'r cwmnïau hyn i'r brif ffrwd dros gyfnod o bum mlynedd a galwodd am i'r WDA ddod yn Asiantaeth Datblygu Cynaliadwy i Gymru yn y dyfodol.

6. Wrth ystyried amaethyddiaeth, ychwanegodd fod rôl allweddol i'r WDA wrth farchnata ac yr oedd ganddo gyfle i ailgodi amaethyddiaeth ar ôl y cychwyniad o glwy'r traed a'r genau. Dylai diwydiant achub y blaen wrth ddefnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon.
7. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at godi'r Siambr newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol, a gobeithiai y byddai'r Cynulliad yn achub y blaen wrth ddatblygu adeiladu effaith isel ac effeithlonrwydd ynni. Terfynodd drwy ddweud y dylai'r Cynulliad geisio rhoi datblygu cynaliadwy yn y brif ffrwd.
8. Tynnodd Tim Stowe sylw at Adran 6 o'r adroddiad ac at y data ynghylch defnyddio'r amgylchedd fel adnodd economaidd a'i effaith ar swyddi. Dyfynnodd yn benodol fel enghreifftiau y Llwybrau Arfordirol yn Sir Benfro, a oedd wedi creu 100-150 o swyddi, a phrosiect 'gwlad y barcud', a oedd wedi creu £2.9 miliwn o wariant twristiaeth ychwanegol. Yr oedd hwn yn sector a oedd ar gynnydd a phwysodd am ymdrin â hynny o fewn y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Awgrymodd hefyd y dylai'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol wneud asesiad o'r twf yn y cynnyrch mewnwladol crynswth fesul sector, e.e. Amaethyddiaeth, Twristiaeth, a.y.b.
9. Llongyfarchodd yr Aelodau Gyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru ar bapur rhagorol. Yr oedd nifer ohonynt yn bryderus nad oedd materion amgylcheddol wedi'u porthi'n ddigonol i'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol.
10. Wrth ateb cwestiwn gan Aelod cadarnhaodd Sylvia Davies eu bod wedi gwneud cais am gyfarfod gyda'r swyddogion a'u bod o ganlyniad wedi gweld rhai gwelliannau o fewn y ddogfen. Er nad aeth mor bell ag y byddent wedi dymuno, yr oeddent yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu. Gofynnodd Aelod am gynnwys cynrychiolydd o Gyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru ym mhroses y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol yn y dyfodol**. [Cam Gweithredu: Emyr Roberts]**
11. Mewn trafodaeth bellach gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd Aelod ei bod yn bosibl, yng ngoleuni'r haint o glwy'r traed a'r genau a'r dinistr ar amaethyddiaeth, y bydd angen inni ystyried ymagwedd newydd at ffermio ac at y modd yr ydym yn rheoli cefn gwlad.

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru mai ei farn oedd nad oedd y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol yn trin datblygu cynaliadwy fel elfen graidd mewn datblygu economaidd a chyfeiriodd yr Aelodau at adran 4 o'i bapur. Carent weld llunio cysylltiadau â'r bylchau amlwg a ddyfynnant. Ychwanegasant nad oedd yn fwriad ganddynt feirniadu'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol, a ystyrient yn gam ymlaen, ond cyflwyno sylwadau ar gyfer ei gwella ymhellach. Teimlent nad oedd yr adroddiad wedi mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy a dymunent ei weld wrth graidd unrhyw strategaeth yn hytrach nag yn rhywbeth atodol.

- Teimlai Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru nad oedd cynnyrch mewnwladol crynswth yn fesur effeithiol i fwrw amcan o gynnydd mewn datblygu economaidd, er eu bod yn deall pam y'i defnyddid. Dadleuasant dros dargedau eraill a fesurai ansawdd ac a fyddai'n haws i'w monitro yn ogystal â chynnyrch mewnwladol crynswth.

- Yr oedd yr holl ddadleuon o blaid datblygu cynaliadwy yn berthnasol i ardaloedd trefol a diwydiannol yn ogystal â rhannau gwledig o'r wlad.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru fod 10% o Gymru wedi'i gynnwys o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond nid oedd y rhan fwyaf o'r rhain mewn ardaloedd statws cadwraeth ffafriol. Yr oedd hyn yn gyfle i greu swyddi yn yr amgylchedd gwledig.

- Cododd Aelod fater Doc Mostyn, prosiect a oedd wedi darparu swyddi i'r ardal ond a oedd bron heb ddigwydd oherwydd lobïo gan amgylcheddwyr. Dywedodd Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru fod hyn yn fodd i ddangos yr angen i amgylcheddwyr gyfrannu i brosiectau'n gynharach. Nid oedd y cyfyngiadau cynllunio'n caniatáu i hynny ddigwydd ar hyn o bryd ond yr oedd gwir angen am ateb integredig.

- Nodwyd y byddai llawer o fusnesau'n elwa o'r arian sydd ar gael oddi wrth yr Ymddiriedolaeth Carbon ac yr oedd hyn yn ffactor pwysig wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

1. Wrth grynhoi, nododd y Cadeirydd rai o'r materion allweddol a godwyd.

- Er y dylai cynnyrch mewnwladol crynswth fod ymysg y prif ddangosyddion yr oedd amryw o fynegrifau eraill a gofynnodd am ystyried y rhain yng nghyd-destun y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol.

- Dylid ystyried pwysigrwydd effaith materion amgylcheddol ar y posibiliadau datblygu economaidd yng Nghymru a'r posibiliadau o ddatblygu busnes, gan elwa ar ein profiad o'r amgylchedd.

- Dylai proses y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol sicrhau bod y WDA ac asiantaethau datblygu eraill yn nodi'r cyfleoedd sydd yn bodoli oddi mewn i sectorau.

**Eitem 4:** Y diweddaraf am gronfeydd Amcan 1, 2 a 3

1. Croesawodd y Cadeirydd John Griffiths, Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 2, a Sheila Maxwell o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.
2. Cyflwynwyd yr eitem gan John Clarke a ddywedodd fod ganddo newyddion cadarnhaol i'w hadrodd. Yr oeddent wedi clustnodi £146.1 miliwn ar gyfer 190 o

brosiectau. Yr oedd hyn yn 12% o'r rhaglen o'i gymharu â pherfformiad cyfredol o 5.7% yng Nglannau Mersi a 8.2% yng Nghernyw. At hynny, yr oedd y mwyafrif helaeth o'r 190 o brosiectau hynny wedi dechrau. Dywedodd eu bod wedi bod wrthi'n adolygu'r broses talu a bellach gallai noddwyr prosiectau i fudiadau'r sector gwirfoddol a mudiadau nid er elw yn y sector preifat gyflwyno hawliadau chwarterol ymlaen llaw yn hytrach nag mewn ôl-ddyled. Dywedodd Mr Clarke ei fod hefyd yn falch bod neges fwy cadarnhaol yn cael ei chyfleu'n gyhoeddus yn y wasg.

3. Ynghylch y Grwp Gorchwyl a Gorffen, dywedodd fod y Grwp Polisi wedi'i ffurfio ac wedi cyfarfod sawl gwaith. Yr oedd y pedair Partneriaeth Strategaeth wedi'u ffurfio a byddent yn cyfarfod am y tro cyntaf yn Ebrill.
4. Yr oedd yr Uned Sector Preifat yn ehangu'n gyflym a byddai'n gweithio'n agos gyda'r Uned Bartneriaeth Gymdeithasol newydd yr oedd Dirprwy Brif Weinidog Cymru newydd ei chyhoeddi. Yr oedd pedair sioe deithiol sector preifat wedi'u cynllunio ar gyfer y pythefnos cyntaf yn Ebrill. Bellach yr oedd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru un rhif ffôn ar gyfer ymholiadau. Trefnwyd cyfarfod gyda Chyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain/Cyngres yr Undebau Llafur/Ffederasiwn y Busnesau Bach/Siambr Cymru i drafod dulliau o weithio'n effeithiol gyda'r sector preifat.
5. Er ei bod yn ofid ganddo fod cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglen ar y dydd Llun blaenorol wedi'i ddiddymu, o ganlyniad i argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau, ni fyddai hyn yn llesteirio prosiectau gan fod y system e-bost yn cael ei defnyddio i ddosbarthu papurau a sicrhau y gwneid penderfyniadau.
6. Ynghylch y Rhaglenni eraill, yr oedd Amcan 3 yn gwneud yn dda gyda chymeradwyo 92 o brosiectau a oedd yn dod i gyfanswm o £10.6 miliwn, a 13% o £80 miliwn y Rhaglen. Yr oedd Amcan 2 yn dechrau'r mis canlynol ac yr oedd y Rhaglen Equal wedi'i lansio gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru yr wythnos flaenorol.
7. Croesawodd yr Aelodau'r newyddion cadarnhaol oddi wrth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ond dywedodd sawl un nad oedd y neges a dderbynient oddi wrth eu hetholwyr mor galonogol. Yr oeddent yn bryderus ynghylch y barnau ymddangosiadol groes hynny. Cyfeiriwyd at lythyr a ddatgelwyd i Christine Chapman AC, Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1, oddi wrth Gyngres Undebau Llafur Cymru, Siambr Cymru, Ffederasiwn y Busnesau Bach a Chyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain a fynegai bryder ynghylch rhan y sector preifat ym mhroses Amcan 1. Awgrymwyd bod y llythyr hwn, a ddatgelwyd i Aelod o'r Pwyllgor, yn codi rhai materion pwysig a barai bryder. Dywedodd y Cadeirydd fod amheuaeth ai'r llythyr a ddatgelwyd oedd y fersiwn a gytunwyd yn derfynol ac a anfonwyd gan y cyrff dan sylw. Gan ei fod wedi'i gyfeirio at Gadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1. a chan nad oedd wedi'i gyhoeddi, dyfarnodd nad oedd yn briodol i'r Pwyllgor drafod y llythyr. Nid oedd y dyfarniad hwn yn atal trafodaeth ar fater cyffredinol y rhan sydd gan y sector preifat yn Amcan 1.
8. Arweiniodd hyn at drafodaeth lawnach ar y modd yr oedd y sector preifat yn

cysylltu ag Amcan 1. Nododd yr Aelodau mai ychydig iawn o'r prosiectau a restrwyd yn y papurau a oedd wedi'u dynodi'n rhai sydd yn dod o'r sector preifat ond nodwyd nad oedd bob amser yn hawdd canfod hynny o enw'r ymgeisydd. Cydnabuwyd bod cyrff sector preifat yn fwy effeithlon wrth gyflwyno ceisiadau am grant, yn ôl pob tebyg, a bod ganddynt yr amser a'r adnoddau i wneud hynny, ond nodwyd hefyd mai'r sector preifat mewn llawer o achosion oedd buddiolwyr prosiectau o'r fath er hynny. Cymhlethid y sefyllfa ymhellach gan lefel uchel y gweithio mewn partneriaeth, a'r ffaith bod ar yr holl brosiectau angen arian cyhoeddus o ryw fath. Yr oedd yr Aelodau'n bryderus, pe na byddai'r sector preifat yn cymryd rhan yn awr, y byddent hwy, a ni, yn colli cyfle. Cytunwyd bod angen cael gwell gwybodaeth ar gyfer monitro'r rhan a gymerid a'r buddiolwyr. Awgrymwyd mai'r hyn yr oedd ei angen oedd gwybodaeth am y ceisiadau a dderbyniwyd, a gymeradwywyd ac a wrthodwyd oddi wrth y sector preifat a gwybodaeth am fuddiolwyr prosiectau sector preifat. Cydnabuwyd na fyddai'n hawdd casglu gwybodaeth o'r fath a chytunodd John Clarke i ystyried beth a allai fod yn bosibl ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. [**Cam Gweithredu: John Clarke**]

9. Nodwyd bod materion tebyg yn codi mewn perthynas â'r sector gwirfoddol.
10. Yn y drafodaeth gwnaethpwyd nifer o bwyntiau eraill:

- Er bod lefel uchel y cymeradwyaethau i brosiectau i'w chroesawu, yr oedd yn bwysig peidio ag anghofio bod ansawdd y prosiectau a gynorthwyid yn holl bwysig i lwyddiant y rhaglen yn y tymor hir.
- Os oedd y cynnydd yn y prosiectau'n uwch yn awr na'r hyn a ddisgwylid o'r blaen, byddai'n bwysig sicrhau y gallai'r Cynulliad estyn am arian, neu weithredu hyblygrwydd ar ddiwedd blwyddyn, ar y gyfradd uwch a oedd yn angenrheidiol i sicrhau y gellid cymeradwyo'r holl brosiectau.
- Os byddai Aelod, neu rywun arall, yn sylwi ar unrhyw anghywirdeb yng ngwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, dylid rhoi gwybod am hynny i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.
- Diolchodd Aelod i'r Gweinidog am yr wybodaeth yr oedd wedi'i darparu y tu allan i'r Pwyllgor am y system sgorio a ddefnyddid i asesu prosiectau. Dywedodd fod y system yn gymharol fras o hyd a bod llawer o oddrychedd o hyd ynghylch penderfynu cymeradwyo prosiectau neu beidio.

1. Wrth grynhoi, nododd y Cadeirydd fod llawer o gynnydd wedi bod wrth weithredu'r cronfeydd strwythurol a bod y Pwyllgor yn croesawu hyn. Nododd y pryderon parhaus ynghylch rhan y sector preifat ac y byddai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn ystyried sut y gellid monitro hynny. Dywedodd y byddai'n trafod gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau Monitro Rhaglen y rôl y gallai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ei chwarae yn hynny heb ymyrryd ym mhriod rôl y Pwyllgorau Monitro Rhaglen. **[Cam Gweithredu: Y Cadeirydd]**

**Eitem 5:** Adolygiad o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

1. Agorodd Andrew Davies y drafodaeth gyda chyflwyniad PowerPoint ar waith a chanfyddiadau cychwynnol yr adolygiad o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
2. Dywedodd fod Cymru, at ei gilydd, ar lefel isel o ran datblygu TG a bod angen iddi oddiweddyd. Dywedodd fod arwyddion cadarnhaol bod hyn yn digwydd a bod hyn yn fater rheolaethol yn hytrach nag un technegol. Siaradodd am yr ymagwedd a ddilynwyd yn ei adolygiad a'r rôl y gallai'r sector cyhoeddus yng Nghymru ei chwarae wrth hybu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Dywedodd fod gan y sector cyhoeddus fel cyfangorff allu prynu sylweddol o tua £150 miliwn y flwyddyn ac y dylid gwneud mwy o ddefnydd o hynny i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y sector preifat a chyflymder a dull y datblygu a ddigwyddai. Gallai'r Llywodraeth hefyd ddylanwadu ar y meysydd hyn drwy'r blaenoriaethau a bennir ganddi ar gyfer cyflwyno a defnyddio TGCh mewn llywodraeth leol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
3. Dywedodd Mr Davies fod y casgliadau a oedd yn dod i'r amlwg o'r adolygiad yn awgrymu nifer o feysydd blaenoriaeth: Rhwydweithio a chysylltedd, yn enwedig yr angen am fand llydan holl bresennol ledled Cymru; lefelau a dulliau ariannu, cyd-drefnu gweithgareddau a'r Gymraeg mewn TGCh. Yr oedd yn bwysig i'r Cynulliad arwain yn y maes hwn a rhoi cyfarwyddyd eglur. Terfynodd drwy ddweud, er bod gan Gymru gryn siwrnai o'i blaen, fod datblygu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu o bwys sylfaenol wrth ddatblygu'r economi a'r wlad. Rhaid i'r Cynulliad ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros gyd-drefnu yn y maes hwn, er mwyn darparu cydlyniad a lleihau dyblygu.
4. Teimlai rhai Aelodau fod yr adroddiad yn mynegi dyheadau clodwiw ond pryderent y byddai'r seilwaith yn llesteirio datblygu. Yn y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol.

- Yr oedd rôl bwysig i'r WDA yn natblygiad TGCh ar gyfer busnesau a, drwy gronfeydd strwythurol, byddai'n gallu cael mynediad i ddatblygiadau amrediad llydan. Maent wedi comisiynu gwaith i oleuo'r WDA a'r Cynulliad ynghylch blaenoriaethau strategol i ymdrin ag anghenion rhwydweithio amrediad llydan Cymru. Bydd Cymru'n ymwneud hefyd â chronfa Amrediad Llydan Holl Bresennol yr Adran Masnach a Diwydiant.

- Gellir darparu'r amrediad llydan drwy amryw o ddulliau. Er y gallai 40% o boblogaeth y DU gael mynediad iddo, yng Nghymru yr oedd angen inni chwilio am fwy nag un ateb ar gyfer darparu'r seilwaith TGCh.

- Nododd sawl Aelod yr angen am atebion TGCh mewn cymunedau lleol, ardaloedd gwledig a'r angen am gyllid sylweddol i fynd i'r afael â'r rhaniad digidol mewn ysgolion.

- Tynnodd un Aelod sylw at y Prosiect Llwybr a'r angen i ddefnyddio'r rhwydwaith eang hwn ar gyfer cynadledda fideo.

- Tynnodd rhai Aelodau sylw at y ffaith bod Cymru'n arwain wrth ddarparu mynediad i'r Rhyngrwyd drwy setiau teledu digidol. Fodd bynnag, yr oedd hyn yn creu ei broblemau ei hun oherwydd natur ddaearyddol Cymru a'r angen am 'linell weledigaeth' i ddarparu rhywfaint o'r dechnoleg hon.

1. Wrth grynhoi, daeth y Cadeirydd i'r casgliad bod materion ynghylch seilwaith yn holl bwysig. Dywedodd fod angen i'r Pwyllgor ystyried TGCh ymhellach ac, yn benodol, goblygiadau economaidd y datblygiadau hyn a gwaith y WDA yn y maes hwn. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu papur i'r Pwyllgor ar hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn. **[Cam Gweithredu: Y Gwenidog dros Ddatblygu Economaidd]** Diolchodd i'r Gweinidog ac i Nick Batey am eu cyfraniad ac ychwanegodd ei bod yn bwysig ar ddiwedd yr astudiaeth fod cynllun gweithredu eglur a ymdriniai â materion adnoddau ac ariannu.

**Eitem 6** – Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 01

6.1 Cytunodd yr Aelodau fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.